

Mr Owian Williams
Gwnnus
Pistyll
Pwllheli
Gwynedd
LL53 6LY

Eich cyf: PAN-005129

Dyddiad: 09/04/2019

Dear Mr Williams

Mae eich cais am drwydded amgylcheddol wedi ei wneud yn briodol

Cyfeirnod y cais: PAN-005129

Gweithredydd: Mr Owain Williams

Cyfleuster: Parc Carafanau a Cwrs Golff Gwnnus, Gwnnus, Pistyll, Pwllheli, LL53 6LY

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod i chi bod eich cais, a dderbyniwyd ar 28/03/2019, wedi ei wneud yn briodol ar 28/03/2019. Ystyr 'wedi ei wneud yn briodol' yw bod gennym yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom i ddechrau gwneud penderfyniad. Wrth wneud penderfyniad, byddwn yn asesu'ch cais ac yn penderfynu a allwn ganiatáu'r hyn a ofynnwyd gennych ai peidio. Os bydd rhaid inni wrthod eich cais, byddwn yn esbonio pam.

Efallai y bydd angen inni ofyn i chi am ragor o wybodaeth yn ystod y broses o wneud penderfyniad. Os bydd angen, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio'r hyn mae ei angen arnom ac erbyn pryd mae angen i chi ateb.

Mae ein Siarter Cwsmeriaid yn esbonio, cyn belled â'ch bod wedi darparu'r holl wybodaeth y mae ei hangen arnom, wedi cynnwys y ffi briodol ac nad oes unrhyw ffactorau sy'n cymhlethu'r sefyllfa fel penderfyniadau ynghylch cyfrinachedd, y gallwch ddisgwyl inni wneud penderfyniad ar eich cais yn unol â'r amserlenni canlynol:

- trosglwyddo trwydded amgylcheddol, neu ei throsglwyddo'n rhannol – cyn pen dau fis;
- trwydded safonol (ac eithrio gweithfeydd); amrywiad bach neu arferol neu ildio trwydded amgylcheddol, neu ei ildio'n rhannol – cyn pen tri mis;
- trwydded safonol ar gyfer gweithfa, trwydded bwrpasol neu amrywiad sylweddol i drwydded (gyda chyfranogiad y cyhoedd) – cyn pen pedwar mis.

Ein nod yw rhoi penderfyniad i chi cyn gynted ag sy'n bosibl, ond bydd yr amser mae'n ei gymryd yn dibynnu ar gynnwys y cais. Efallai y bydd angen inni gytuno ar amserlen hirach:

- os yw'r cais yn gymhleth;
- os oes angen inni ofyn i chi am fwy o wybodaeth am agweddau technegol eich cais;

Ffôn/Tel 0300 065 3789
Ffacs/Fax 0300 065 3001
Ebost/Email Tara.Al-Far@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Tara.Al-Far@naturalresourceswales.gov.uk

Canolfan Trwyddedu Cymru (Caerdydd), Cyfoeth Naturiol Cymru, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0TP
Wales Permitting Centre (Cardiff), Natural Resources Wales, Cambria House, 29 Newport Road, Cardiff. CF24 0TP

- os ceir diddordeb sylweddol gan y cyhoedd neu sefydliadau eraill.

Os nad ydym wedi siarad â chi eisoes am ba bryd y gallwch ddisgwyl ein penderfyniad, bydd un o'n swyddogion yn cysylltu â chi cyn bo hir i esbonio hyn ac i ymdrin ag unrhyw gwestiynau sydd gennych. Os oedd eich cais yn cynnwys cais am gyfrinachedd, byddwn yn ysgrifennu atoch ar wahân am ein penderfyniad ynglŷn â hynny.

Mae'n rhaid inni hysbysebu ceisiadau pwrpasol newydd, ceisiadau am weithfeydd o dan y rheolau safonol ac amrywiadau sylweddol ar ein gwefan. Rydym yn esbonio hyn ymhellach yn ein Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 0300 065 3000 a byddant yn eich cysylltu â chynghorwr yn y Ganolfan Derbyn Trwyddedau neu anfonwch neges e-bost at permitreceiptcentre@naturalresourceswales.gov.uk.

Yn gywir

Tara Al-Far

Swyddog Trwyddedu Ansawdd Dŵr

Canolfan Derbyn Trwyddedau Cymru (Caerdydd)